# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 27 Mai 2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

3 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

5 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## *Gofyn i’r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Nerys Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Yn dilyn ei ateb i 'WAQ56001', pa gamau y mae'r Gweinidog am eu cymryd i ddwyn perswâd ar y siroedd a restrir i ddiwallu'r galw. (WAQ56021) [W]

***Rhoddwyd ateb ar 04 Mehefin 2010***

Mae'r rhaglen weithredu ar gyfer y strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn nodi y caiff Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg eu cyflwyno gan awdurdodau lleol i Lywodraeth Cynulliad Cymru bob blwyddyn. Dyma'r ffordd y byddwn yn monitro gwaith awdurdodau lleol o ran asesu ac ateb y galw am addysg cyfrwng Cymraeg. Fel yr esboniais yn fy ateb i'ch cwestiwn ar 19 Mai (WAQ56004), bydd y broses hon yn adeiladu ar y system o Gynlluniau Addysg Gymraeg sydd ar hyn o bryd yn cael eu cyflwyno i Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Ein bwriad yw gweithio gyda Bwrdd yr Iaith am gyfnod interim, gyda'r nod o drosglwyddo'r broses fonitro i APADGOS maes o law.

Mae'r cynllun gweithredu hefyd yn nodi y byddaf yn cadeirio cyfarfod blynyddol Panel Ymgynghori Gweithredu Strategaeth a fydd yn cynnwys uwch gynrychiolwyr o awdurdodau lleol. Mae'n amlwg y bydd asesu ac ateb y galw yn fater allweddol i agenda'r panel hwn. Yn y cyd-destun hwn, mae'r Strategaeth hefyd yn nodi'n glir y byddwn yn parhau i ystyried dulliau pellach o ddylanwadu ar gyfeiriad strategol addysg cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys deddfwriaeth bosibl.

**Nerys Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Yn dilyn ei ateb i 'WAQ56001', a wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch canran y disgyblion mewn addysg gynradd Gymraeg yn y siroedd a restrir ar hyn o bryd. (WAQ56022) [W]

***Rhoddwyd ateb ar 04 Mehefin 2010***

Mae'r tabl canlynol yn cynnwys data ar gyfer 2008/09 o ran niferoedd a chanran y disgyblion ysgol gynradd mewn dosbarthiadau lle mai Cymraeg yw'r unig gyfrwng addysgu neu'r prif gyfrwng addysgu, fesul awdurdod lleol.

| **Awdurdod Lleol** | **Nifer y disgyblion mewn dosbarthiadau lle mai Cymraeg yw'r unig gyfrwng addysgu neu'r prif gyfrwng addysgu** | **% y disgyblion mewn dosbarthiadau lle mai Cymraeg yw'r unig gyfrwng addysgu neu'r prif gyfrwng addysgu** |
|---|---:|---:|
| Ynys Môn | 3,920 | 73.7 |
| Gwynedd | 9,510 | 98.8 |
| Conwy | 2,100 | 24.4 |
| Sir Ddinbych | 2,028 | 24.6 |
| Sir y Fflint | 782 | 5.9 |
| Wrecsam | 1,148 | 10.0 |
| Powys | 1,609 | 15.4 |
| Ceredigion | 3,846 | 74.4 |
| Sir Benfro | 2,012 | 19.5 |
| Sir Gaerfyrddin | 7,519 | 51.3 |
| Abertawe | 2,369 | 11.7 |
| Castell-nedd Port Talbot | 2,112 | 17.6 |

| | | |
|---|---|---|
| Pen-y-bont ar Ogwr | 1,040 | 8.5 |
| Bro Morgannwg | 1,351 | 11.7 |
| Rhondda Cynon Taf | 4,219 | 19.7 |
| Merthyr Tudful | 552 | 10.9 |
| Caerffili | 2,254 | 13.6 |
| Blaenau Gwent | 274 | 4.6 |
| Tor-faen | 612 | 7.9 |
| Sir Fynwy | 230 | 3.4 |
| Casnewydd | 428 | 3.2 |
| Caerdydd | 3,564 | 12.9 |
| **Cymru** | **53,479** | **20.8** |

*Ffynhonnell data: www.statswales.wales.gov.uk*

**Nerys Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Yn dilyn ei ateb i 'WAQ56001’ a wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch canlyniad mesur y galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn y siroedd a restrir lle'r aed ati i fesur y galw. (WAQ56023) W

***Rhoddwyd ateb ar 04 Mehefin 2010***

Yn fy ateb i WAQ56021, nodaf mai Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg fydd y prif ddull a gaiff ei ddefnyddio i fonitro gwaith awdurdodau lleol o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg a gaiff eu cyflwyno gan awdurdodau lleol i Lywodraeth Cynulliad Cymru bob blwyddyn. Rwyf hefyd wedi esbonio y bydd y broses hon yn adeiladu ar y system o Gynlluniau Addysg Gymraeg sydd ar hyn o bryd yn cael eu cyflwyno i Fwrdd yr Iaith Gymraeg, a'n bod ar hyn o bryd yn gweithio ar drefniadau pontio i drosglwyddo’r cyfrifoldebau hyn.

I lawer o awdurdodau lleol, bydd y cynlluniau hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar wella'r broses gynllunio ar sail y galw wedi'i fesur gan rieni. Mae cynllun gweithredu'r strategaeth yn nodi'n glir y byddwn, erbyn 2012, yn pennu canllawiau clir ar sut y mae disgwyl i awdurdodau lleol weithredu'n ddi-oed ar ganfyddiadau arolygon rhieni o'r fath.

Cyfrifoldeb pob awdurdod lleol, nawr ac yn y dyfodol, yw gwneud penderfyniadau ar ei ffordd arbennig o wella darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ar sail amgylchiadau lleol. Ar y cam cynnar hwn, prin fis ar ôl i'r strategaeth gael ei lansio, ni fyddai'n briodol i mi roi sylwadau ar y camau gweithredu y mae awdurdodau lleol unigol eisoes wedi'u cymryd yn y cyd-destun hwn.

## *Gofyn i’r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth*

**Brian Gibbons (Aberafan):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion a) faint o geisiadau am gymorth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a wnaed i Fwrdd Ymgynghorol Datblygu Diwydiannol Cymru ar gyfer 2008/09 a 2009/10; b) faint o'r ceisiadau hynny sydd wedi cael eu cymeradwyo ac c) faint o swyddi a gefnogir o ganlyniad i hynny. (WAQ56018)

***Rhoddwyd ateb ar 09 Mehefin 2010***

Mae tabl sy'n amlinellu'r wybodaeth wedi'i atodi.

BWRDD CYNGHOROL DATBLYGU DIWYDIANNOL CYMRU

| | **2008/09** | **2009/10** |
|---|---|---|
| **Nifer y ceisiadau a gyflwynwyd i'r Bwrdd** | **24** | **24** |
| **Nifer y ceisiadau a gymeradwywyd** | **24** | **24** |
| **Nifer y swyddi newydd cysylltiedig*** | **3305** | **2205** |
| **Nifer y swyddi cysylltiedig a ddiogelwyd*** | **3006** | **1129** |

* Dyma ragamcan o nifer y swyddi ar adeg y cynnig. Nid yw rhai cwmnïau yn derbyn eu cynnig nac yn creu na diogelu'r nifer o swyddi a ragamcanwyd am nifer o resymau (lle bo'n hynny'n digwydd, caiff swm y cymorth a delir ei leihau'n briodol).

**Brian Gibbons (Aberafan):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion a) faint o geisiadau am gymorth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru sydd wedi cael eu hystyried gan Fwrdd Ymgynghorol Datblygu Diwydiannol Cymru gan (i) cwmnïau yng Nghymru (ii) cwmnïau yn y DU ond heb fod yng Nghymru (iii) cwmnïau heb fod yn y DU; b) faint o'r ceisiadau hyn sydd wedi cael eu cymeradwyo ar gyfer pob un o'r categorïau hyn; c) faint o gymorth ariannol sydd wedi cael ei roi ar gyfer pob categori. (WAQ56019)

***Rhoddwyd ateb ar 09 Mehefin 2010***

Mae tabl sy'n amlinellu'r wybodaeth wedi'i atodi.

Ers i Lywodraeth y Cynulliad gael ei sefydlu ym mis Gorffennaf 1999, mae Bwrdd Cynghorol Datblygu Diwydiannol Cymru wedi ystyried dros 400 o geisiadau am gymorth ac wedi argymell bod grantiau'n cael eu cynnig mewn perthynas â 357 o'r ceisiadau a dderbyniwyd o dan Gymorth Rhanbarthol Dewisol, SMART Cymru, Adran 4 y Grant Twristiaeth a'r Gronfa Fuddsoddi Sengl.

Er cyflawnrwydd, dim ond ar gam y cynnig yn hytrach na cham y cais y caiff y manylion hyn eu cofnodi; o ganlyniad nid yw'n bosibl torri'r 400 o geisiadau i lawr yn ôl y cais.

| | Nifer y cymeradwywyd | Gwerth cynigion a wnaed £m |
|---|---|---|
| Cwmnïau yng Nghymru | 139 | 214.414 |
| Cwmnïau yn y DU nad ydynt yng Nghymru | 56 | 106.173 |
| Cwmnïau nad ydynt yn y DU | 162 | 425.566 |
| CYFANSWM | 357 | 746.153 |

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddefnyddio gwasanaeth tacsis a cherbydau llogi preifat yn lle'r cyswllt hedfan rhwng y gogledd a'r de dros y naw mis diwethaf gan gynnwys sawl gwaith defnyddiwyd tacsis a beth oedd y gost i'r cyhoedd. (WAQ56020)

***Rhoddwyd ateb ar 09 Mehefin 2010***

Gweithredwr y cwmni hedfan sy’n gyfrifol am bennu unrhyw drefniadau amgen i deithwyr pan fydd gwasanaeth yn methu.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Faint o sefydliadau y mae'n debyg y tynnir arian yn ôl oddi wrthynt oherwydd bod y Cynllun Grant ar gyfer Cydweithio wedi dod i ben. (WAQ56016)

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o oblygiadau dod â'r Cynllun Grant ar gyfer Cydweithio i ben. (WAQ56017)

***Rhoddwyd ateb ar 09 Mehefin 2010***

Caiff y Grant ar gyfer Cydweithio ei dalu'n uniongyrchol i bob un o'r 22 o awdurdodau lleol.

Bellach, mae angen i'r llu o gynlluniau llwyddiannus a gyflwynwyd dros gyfnod y cynllun gael eu hintegreiddio i ddarpariaeth gwasanaethau statudol craidd y rheng flaen. Mae fy mhenderfyniad i ddarparu arian am flwyddyn ychwanegol ar gyfer 2010-11 yn rhoi amserlen realistig i awdurdodau lleol gyflawni hyn.